

IESU TIRION

gan Lleucu Roberts, Y Lolfa,
290 tud, Pris £6.95.



Rhaid cyfaddef, pan welais i deitl y nofel hon 'doedd dim llawer o awydd arna'i ei darllen, ond yna, wrth graffu'n fanylach ar y clawr mi welais mai aralleiriad o'r emyn Iesu Tirion oedd yma:

"Iesu Tirion, gwely nawr Blentyn bach yn bolgi mawr;

Wrth fy ngwenda, ty'd â'r ha. Paid â'm gwnffon, Iesu da. Amen. Côt"

Ac yn wir, does dim sôn am 'grefydd' o gwbl ynddi! Yn hytrach, clywn am yr holl helyntion a'r holl hasl sydd yn codi wrth redeg Ysgol Feithrin o safbwynt yr Arweinyddes, Mareed, a'i chynorthwywraig, Doreen. Mae'r cwbl yn troi o amgylch y chwe phlentyn sydd yn mynychu'r Ysgol Feithrin, a'u rhieni amrywiol eu cefndiroedd a'u diddordebau. Yng nghanol y tristwch sy'n llechu yn y cefndir, ceir digonedd o droeon trwstan a hiwmor i ysgafnhau'r nofel.

Er mai 'Gog swci o Sir Aberteifi' yw'r awdures, yn nhafodiaith Sir Gernarfon yr adroddir yr hanes, ac ar y dechrau cefais ychydig drafferth i'w dilyn. Mae'r iaith, hefyd, yn frith o regfeydd, felly nid yw'n mynd i

Adolygiadau

apeliu at bawb. Ond nofel werth ei darllen, serch hynny.

Mae'r awdures ei hun yn fam i bedwar o blant a dyma'i nofel gyntaf. Yn ddiweddar bu'n ysgrifennu sgriptiau i S4C, yn cynnwys sgript y gyfres Amdani. Bu hefyd yn olygydd yn Y Lolfa rai blynyddoedd yn ôl a bu'n agos i'r brig ym mhrif gystadlaethau llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd. Daw'n wreiddiol o Geredigion, ond mae bellach yn byw yn Rhostryfan, ger Caernarfon. Dewiswyd Iesu Tirion yn Nofel y Mis ar gyfer mis Mai.

Lis Williams

MÔR-LADRON CYMRU

gan Dafydd Meirion, Y Lolfa
122 tud. Pris £5.95.

Roedd môr-ladron Cymru ymysg ysbeilwyr enwoca'r byd yn eu cyfnod - Harri Morgan a wnaeth ei ffortiwn yn Jamaica, Barti Ddu o Gasnewy' Bach a ddyfeisiodd faner y penglog a'r esgryn, a Hywel Dafis o Aberdaugleddau a gafodd yr enw o fod yn "Dywysog y Môr Ladron".

Dyma lyfr y bu galw mawr amdano yn yr ysgolion ar hyd y blynyddoedd gan blant ysgol a ddatblygodd ddiddordeb ysol yn hysbysu'r helynt y dihirod morwrol.

Am y tro cyntaf yn y Gymraeg, ceir eu hanes yn y gyfrol hon gan Dafydd Meirion. Mae'n cynnwys rhai o'r straeon difyrff am y môr-ladron a'u bywydau cyffrous, treisgar a meddw. Yn y gyfrol hon ceir sôn am ysbeilwyr fel Tomos Prys o Blas Iolyn a Prys Gruffydd, mab stad y Penrhyn ger Bangor, a rhoddir y cyd-destun Cymreig a rhyngwladol i egluro sut llwyddodd

cymaint o Gymry wneud bywyoliaeth byr, ond llawn hwyl. Yn ychwaegol ceir cyfeiriad at lawer o fôr - ladron eraill na chlywai erioed amdanynt megis John Phillips o Borthmadog, John Evans a saethwyd yn farw gan y mêr, Robert Beaver a anwyd yn Aberffraw, Môn a llu o rhai eraill.

Rwy'n sicr y bydd disgyblion ein hysgolion wrth eu boddau â'r gyfrol a bydd yn sail sawl prosiect, mi gredaf. Bydd y llyfryddiaeth yng nghefn y gyfrol hefyd yn fodd i arwain at ymchwilio pellach.

Mae'n gyfrol werthchweil ac yn werth i'w chael wrth eich penelin.

Mae Dafydd Meirion, yr awdur, yn gyn-newyddiadurwr sydd bellach wedi sefydlu cwmni Llais, gan arbenigo mewn cysylltiadau cyhoeddus, cyhoeddi a chynhyrchu rhaglenni radio. Mae'n byw ym Mhen-y-groes ac yn awdur nifer o nofelau yn ogystal â llyfr am y cowboys Cymreig, Cymry Gwylt y Gorllewin.

MADOG

gan Gwyn Thomas a Margaret Jones, Y Lolfa, 104 tud. Pris £6.95

Mae hon yn gyfrol hynod hardd yn llawn lluniau lliw a du a gwyn ardderchog. Rydym i gyd yn lled gyfarwydd â'r chwedl ond yn y gyfrol hon daw taith ryfeddol Madog yn fyw inni drwy ysgrifennu disglair Gwyn Thomas a darluniau bendigedig Margaret Jones.

Yn ôl y dehongliad hwn o daith anhygoel Madog i America yn y 12fed ganrif gan Gwyn Thomas roedd Madog yn grediniol fod y byd yn grwn, a mynd ar fordaith i brofi nad oedd ymyl i'r byd oedd ei fwriad. Hefyd yn ôl yr awdur, dim ond tair llong a ddefnyddiwyd gan Madog, yn hytrach na'r tair ar ddeg a nodwyd yn y gerdd enwog gan Ceiriog. Er nad oes modd profi'r cysylltiad Cymreig yn yr America heddiw, yn y fersiwn hon o'r stori mae Madog yn ymgartrefu yn nyffryn y Missouri gan briodi merch frodorol a chael pump o blant - hynafiaid llwyth y Mandaniaid llygaid glas a siaradai Gymraeg a fu'n byw yn nyffryn y Missouri am ganrifoedd.

Mae hon yn werth i'w phrynu ac i'w darllen ac mae at ddant pob oed.

Mae'r Athro Gwyn Thomas yn frodor o Flaenau Ffestiniog ond sy' bellach yn byw ym Mangor, lle bu'n Bennaeth y Gymraeg yn y Brifysgol. Mae Margaret Jones yn artist hynod brofiadol ac yn byw yng Nghapel Bangor ger Aberystwyth. Cydweithiodd y ddau ar sawl llyfr i blant, gan ennill gwobr Tir na n-Og ar sawl achlysur.

Cymdeithas Bob Owen

Ffair Lyfrau, Recordiau a Mân Lestri

Ysgol y Berwyn Y Bala

DYDD SADWRN, 17 MEDI, 2005

Miloedd o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar werth,
yn ogystal â phrintiadau, hen fapiau,
recordiau a llawer mwy.

Mynediad £1 (yn cynnwys tē a choffi)

Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Golygydd:

Teliffôn (01678) 540652